**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Cyfarfod y Grŵp**
**Ecosystem Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir**

**Tŷ Ladywell, Y Drenewydd**

**19 Tachwedd 2014**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Helen Buckingham (Cadeirydd) | HB | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Sarah Mellor | SM | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Amy Vanstone | AV | RSPB Cymru |
| Dave Rogerson | DR | Llywodraeth Cymru |
| Colin Cheesman | CC | Plantlife |
| Caroline Wilson | CW | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Jan Sherry | JS | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Stuart Smith | SS | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Beth Hopkins | BH | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| Andy Karran | AK | Ymddiriedolaeth Natur Gwent |
| Holly York | HY | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Arwel Williams | Llywodraeth Cymru |
| Bryn Jones | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Nathan Walton | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| Gareth Griffiths | Prifysgol Aberystwyth |
| Sion Brackenbury | Commons Vision |
| Sinead Lynch | Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn |
| John Warren | Prifysgol Aberystwyth |
| Liz Jones | Cyfoeth Naturiol Cymru |

1. **Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Estynnodd HB groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol.

2. **Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o'r cyfarfod, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae mwyafrif y camau gweithredu o gyfarfod mis Mehefin wedi'u cwblhau erbyn hyn, ac mae'r camau gweithredu sy'n weddill naill ai wedi'u cynnwys yn yr eitemau sydd ar agenda'r cyfarfod hwn (camau gweithredu 2, 6, 8, 12, 13, 14 a 15) neu maent yn gamau gweithredu parhaus. Gweler isod:

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu 4.** Rhoi sylw i faterion yn ymwneud â grug a llosgi yng Nghymru: JS i gysylltu â Davey Martyn/Caryn Le Roux i drefnu cyfarfod. | I'w ddwyn ymlaen. HY i ddarganfod pwy y mae angen cysylltu ag ef/hi yn Llywodraeth Cymru. |
| **Cam gweithredu 5.** Diwrnodau arddangos gwaith rheoli tir ar gyfer pryfed peillio – y posibilrwydd o gysylltu hynny â diwrnodau rheoli Glastir. JS i gysylltu ag Arfon Griffiths i drafod. | Mae JS mewn cysylltiad ag AG, sy'n awyddus i gael rhagor o ddiwrnodau hyfforddi Glastir, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch pryfed peillio. JS i drafod â Sinead Lynch a Claire ynghylch tir âr. |
| **Cam gweithredu 9.** Parhau i ymchwilio i waith rheoli ac adfer dolydd gwair yng Nghwm Elan. **SS** i gysylltu â staff Ymddiriedolaeth Cwm Elan i drafod y gwaith dilynol posibl. Cynnig achos dros arolwg tymor hir o ddolydd, i Cyfoeth Naturiol Cymru/Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru efallai. | Cam gweithredu parhaus. |

**Cam gweithredu 1.** Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (HY) i lanlwytho'r cofnodion y cytunwyd arnynt o'r cyfarfod diwethaf i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

3. **Cyflwyniad i brosiect a ariennir gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, sef Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol – De-ddwyrain Cymru (Andy Karran, Ymddiriedolaeth Natur Gwent)**

Cafwyd cyflwyniad gan Andy Karran, sef Swyddog Safleoedd Bywyd Gwyllt y prosiect 'Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol – De-ddwyrain Cymru'.

Mae uchafbwyntiau'r prosiect peilot yn cynnwys y canlynol:

- Creu 60 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol (5 ym mhob ardal awdurdod lleol)

- Cynnal arolygon o safleoedd astudio peilot
- Asesu'r gwaith rheoli a fydd yn ofynnol ar gyfer 64 o safleoedd astudio peilot, ynghyd â'r costau.
- Creu cyfres o becynnau cymorth ar gyfer rheoli cynefinoedd – anfon setiau wedi'u teilwra at y tirfeddiannwr
- Llawer o gyhoeddusrwydd a gwaith ymgysylltu – diwrnodau i dirfeddianwyr, taflenni, cyflwyniadau, erthyglau, presenoldeb mewn digwyddiadau
- Cadwraeth ymarferol ar bedwar o safleoedd enghreifftiol

Mae'n brosiect a ariennir gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gyda chyfraniadau bach gan rai awdurdodau lleol. Caiff y prosiect ei ymestyn (rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015) â grant bach drwy brosiect ucheldiroedd y Gronfa Natur. Bydd y gwaith dan sylw'n cynnwys cynhyrchu pecynnau cymorth newydd, e.e. ynghylch Ffridd. AV – mae gan yr RSPB daflen wybodaeth ynghylch Ffridd. Mae'r prosiect yn ymchwilio i gyllid pellach, yn benodol gan Esmée Fairbairn.

Dave – mae taflen ynghylch Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gael, a allai gael ei hanfon gyda gwybodaeth at dirfeddianwyr.

Cyfeiriodd y grŵp at y gwaith ardderchog a wneir gan y prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, ac at yr angen i gael prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol i Gymru gyfan.

**Cam gweithredu 2.** HY/AV i ddosbarthu'r canllawiau ynghylch Ffridd gan yr RSPB a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cam gweithredu 3.** HY i anfon yr adroddiad diwedd prosiect i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r grŵp pan fydd ar gael.

**Cam gweithredu 4.** HB i sôn am y prosiect yn y cyfarfod i Gadeiryddion, a rhoi'r pecynnau cymorth i Matthew Quinn.

**4. Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Adfer Natur**

Y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir i ddarparu ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Adfer Natur. Cafodd ymatebion y grŵp i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad eu trafod gan y grŵp a'u nodi'n syth ar y papur ymateb.

**Cam gweithredu 5.** HY i dacluso'r papur ymateb, ei anfon at JS i'w ddiweddaru a'i ddosbarthu i'r grŵp er mwyn cael unrhyw sylwadau pellach. HY i anfon ymateb y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir i Lywodraeth Cymru.

**5. Bylchau yn nhystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Mae sylwadau ynghylch bylchau mewn tystiolaeth wedi'u darparu gan academydd y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (yr Athro Mike Bruford).

Bydd JS yn darparu adborth ynghylch sylwadau, gan gynnwys y sylwadau a ddarparwyd ar yr ail gynnig ynghylch prosiect ymchwil (goblygiadau llosgi cylchdro hirdymor ar weundir yr iseldir).

Y posibilrwydd o gynnal adolygiad newydd gan y Grŵp Ecosystem – 'Adolygiad Annibynnol o Waith Ail-greu Cynefinoedd'. Adolygiad o waith ail-greu cynefinoedd, e.e. astudiaeth pen desg ar lefel PhD i ystyried astudiaethau achos – llwyddiannau, methiannau? Adolygiad systematig? Canolbwyntio ar gynefin penodol/trawstoriad?

**Cam gweithredu 6. JS** i symud 'Adolygiad Annibynnol o Waith Ail-greu Cynefinoedd' y Grŵp Ecosystem yn ei flaen.

### 6. Mapio cynefinoedd â blaenoriaeth

Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau i fapiau. Cytunodd y Grŵp y byddai'n ddefnyddiol adolygu camau gweithredu'r prosiect (yng nghyswllt cynefinoedd a rhywogaethau) sy'n digwydd yn yr ardaloedd â blaenoriaeth. Mae'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) yn fan cychwyn defnyddiol.

**Cam gweithredu 7. HY** i asesu'r gweithgarwch sy'n digwydd mewn ardaloedd â blaenoriaeth, o safbwynt glaswelltir a gweundir yr iseldir, gan ddefnyddio'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth fel man cychwyn.

### 7. Gwaith Llywodraeth Cymru ar Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru ar Asesu Effeithiau Amgylcheddol, gan Dave Rogerson:

- Roedd hi wedi bod yn flwyddyn brysur o ran sgrinio, oherwydd cynhaliwyd dros 100 o asesiadau sgrinio.
- Hyrwyddwyd gwaith Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn fewnol ac yn allanol. Bydd dau weithdy ynghylch Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn cael eu cynnal ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn y de a'r gogledd. JS/SS i ddarparu gwybodaeth am y gweithdai i bob tîm perthnasol yn Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae tri o ecolegwyr yn ymdrin â Chymru gyfan – Dave (yn y canolbarth) ac Arwel (yn y gogledd) ac maent yn gweithio mewn parau wrth ymweld â safleoedd.
- Yn y dyfodol, efallai y bydd nifer yr ymweliadau sgrinio'n lleihau ac y bydd ffotograffau lloeren/astudiaethau desg yn cael eu defnyddio i ymdopi â llwyth gwaith sy'n cynyddu.
- Mae asesiadau sgrinio ar gael i'r cyhoedd. Ceir mynediad iddynt drwy'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth. Nid yw gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol yn wybodaeth gyhoeddus o safbwynt bod yn fater sy'n ymwneud â gorfodi, ond mae'n bosibl y gellir ei chofnodi ar lefel gwledydd.

- Mynychwyd gweithdy ar gapiau cwyr. Mae defnyddio codau bar DNA i ddangos pwysigrwydd cae sydd wedi'i aredig yn destun ymchwiliad gyda Gareth yn dilyn y gweithdy.
- Cyfrannwyd at ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn enwedig o safbwynt tir âr a garddwriaeth.
- <u>Gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol</u>: ar hyn o bryd ceir 8 achos gweithredol o wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol. Ceir awydd i roi mwy o adborth ynghylch canlyniadau gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol. Mae'n bwysig iawn bod rhestrau o rywogaethau glaswelltir yn cynnwys amlder (canran y gorchudd), er mwyn gallu defnyddio'r wybodaeth.

| |
|---|
| **Cam gweithredu 8.** Asesu Effeithiau Amgylcheddol: **PAWB** Sesiynau hyfforddi – cysylltu â Dave Rogerson i gael rhagor o wybodaeth. Gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol – cysylltu â Dave pan fydd hynny'n berthnasol a sicrhau bod amlder yn cael ei gofnodi gyda'r rhestrau o rywogaethau. Tynnu sylw at waith Asesu Effeithiau Amgylcheddol pan fo hynny'n bosibl. |

## 8. Y Gronfa Natur

Bu'r Grŵp yn asesu rhestr o Brosiectau Cydweithredol y Gronfa Natur – ceir rhai prosiectau posibl sy'n berthnasol i laswelltir a gweundir yr iseldir, e.e. Partneriaeth Tirwedd Llŷn, Penrhyn Castellmartin, Adfer Gweundir y Mynyddoedd Duon, a phryfed peillio? Mae rhestr lawn o brosiectau'r Gronfa Natur ar gael yn y fan hon:
http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?skip=1&lang=cy

| |
|---|
| **Cam gweithredu 9.** Pawb i roi adborth ynghylch unrhyw weithgareddau perthnasol sy'n ymwneud â'r Gronfa Natur, a fyddai o fudd i laswelltir a gweundir yr iseldir. |

## 9. Adborth o'r gweithdy capiau cwyr

Cynhaliwyd gweithdy capiau cwyr ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron ddydd Iau 30 Hydref. Cafodd y gweithdy ei arwain gan Dr Gareth Griffiths o Brifysgol Aberystwyth a Dave Lamacraft o Plantlife. Roedd nifer dda o aelodau'r grŵp, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a phartneriaethau ehangach yn bresennol yn y gweithdy (e.e. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Powys, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Tiroedd Comin Coety Walia, Plantlife, RSPB Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru). Roedd y sesiwn dan do'n cynnwys gwaith adnabod, gwaith pennu pwysigrwydd, gwaith rheoli a gwaith defnyddio codau bar DNA (a oedd yn cynnwys prosiect Dr Gareth Griffiths a ariennir gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil – 'Defnyddio codau bar DNA i warchod glaswelltiroedd capiau cwyr'). Cynhaliwyd sesiwn yn yr awyr agored ar

lawntiau a thir Tŷ Llanerchaeron, lle cafodd casgliad niferus o gapiau cwyr eu gweld a'u hadnabod. Cafwyd ymateb da i'r gweithdy a rhoddwyd adborth da.

Lluniwyd nodiadau ynghylch y gweithdy capiau cwyr a chawsant eu dosbarthu i'r sawl a oedd yn bresennol ac i aelodau'r grŵp.

**Cam gweithredu 10.** HY i ddosbarthu cyflwyniadau PowerPoint Gareth a Dave yn y gweithdy i grwpiau a'r sawl a oedd yn bresennol.

**10. Syniadau ynghylch gweithdai a hyfforddiant yn ystod 2015**

| Pwnc y gweithdy | Lleoliad | Dyddiad | Prif drefnwyr |
|---|---|---|---|
| Gweithdy: Glaswelltir calchfaen yn y gogledd-orllewin | Y gogledd-orllewin | Canol i ddiwedd Mehefin (y drydedd wythnos ym mis Mehefin) | JS/SS/HY |
| Cyfarfod i Gymru gyfan ynghylch y frân goesgoch | Sir Benfro | Medi/Hydref | AV/SM/HY |
| Cyfarfod nesaf y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir ynghyd ag ymweliad maes | Sesiwn yn yr awyr agored – Dolydd Berthlwyd (safle Dôl y Coroni sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mannau Brycheiniog)*. Lleoliad y sesiwn dan do i'w gadarnhau | Dechrau Gorffennaf | HB/HY |

* http://www.nationaltrust.org.uk/wra-1356313008035/view-page/item424605/

**Cam gweithredu 11. Gweithdy glaswelltir calchfaen – HY** i benderfynu ar ddyddiad y gweithdy a gwneud trefniadau ar ei gyfer gyda **JS/SS.** Bydd manylion y gweithdy'n cael eu trefnu ddechrau'r flwyddyn a bydd dyddiadau gwyliau ysgol yn cael eu hosgoi.

**Cam gweithredu 12. Cyfarfod i Gymru gyfan ynghylch y frân goesgoch** – **HY** i benderfynu ar ddyddiad y gweithdy a gwneud y trefniadau ar gyfer y cyfarfod gydag AV/SM.

**Cam gweithredu 13. Cyfarfod y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir yn yr haf – HY** i drefnu dyddiad y cyfarfod nesaf a HB i ystyried yr opsiynau ar gyfer ymweliad gan y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir, lleoliad y sesiwn dan do ac ymweliad â Dolydd Berthlwyd. **HY** i wahodd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Sir Gaerfyrddin ac ati) a staff lleol Cyfoeth Naturiol Cymru i fynychu cyfarfod y grŵp yn yr haf.

## 11. Unrhyw fater arall, dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

**Richard Wistow:** Trafododd y grŵp ebost Richard ynghylch defnyddio cymysgedd o hadau rhywogaethau estron. Mae Plantlife wrthi'n gweithio ar bolisi i fynd i'r afael â'r mater hwn.

| |
|---|
| **Cam gweithredu 14. CC** i drafod â Trevor Dines, Plantlife er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, a dosbarthu'r polisi pan fydd ar gael. |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**: Gweler eitem 10.